Canolradd (Gogledd)

Chwarae'r Gêm - Act 7

(Nodyn i'r Tiwtor: Os dach chi'n dilyn Cwrs Canolradd CBAC (y gogledd) mi fydd y ddrama hon yn addas unrhyw bryd ar ôl Uned 11.)

Yr wythnos wedyn. Mae Caerddinas newydd golli gêm arall ac mae Gwyn Thomas yn derbyn llythyr gan Gadeirydd y clwb. Mae Gwyn a'i wraig, Megan, yn swyddfa'r clwb.

Megan: Oes 'na rywbeth diddorol yn y post?

Gwyn: Does 'na ddim yn y post. Roedd hwn ar fy nesg i y bore 'ma – llythyr gan y Cadeirydd.

Megan: Jenkins? O diar. Doedd o ddim yn hapus dydd Sadwrn.

Gwyn: Nac oedd. Dyma'r llythyr. 'Annwyl Mr Thomas…'

Megan: Mr Thomas?

Gwyn: 'Annwyl Mr Thomas. Ysgrifennaf ynglŷn â pherfformiad y clwb dydd Sadwrn ac ynglŷn â pherfformiad y clwb dros y misoedd diwetha. Roedd hi'n ddrwg iawn gen i weld y clwb yn colli eto.

Ar ran Pwyllgor y Clwb, dw i rŵan yn gofyn i chi adael eich swydd.

Mi faswn i wrth fy modd tasai ateb arall yn bosib. Diolch am eich gwaith da dros y clwb. Yn gywir Stephen Jenkins, BA, CBE, Aelod o Orsedd y Beirdd.'

Megan: O Gwyn!

Mae Larry Day yn cyrraedd.

Gwyn: Larry. Rwyt ti wedi clywed.

Larry: Wrth gwrs. Mae Jenkins wedi galw cynhadledd i'r wasg heddiw.

Gwyn: Pryd?

Larry: Pedwar. Gwyn, dw i'n gwybod bod Michael yn gamblo. Dw i'n gwybod bod arno fo bres mawr i'r casino. Ond dw i ddim yn medru profi fod o'n prynu chwaraewyr…..

Gwyn: Ond mae gynnon ni tan 4.00 o'r gloch……

Larry: Iawn…..a Megan, mi fydd isio dy help di hefyd.

Geirfa

Cynhadledd i'r wasg – press conference

Gorsedd y Beirdd – The Gorsedd of Bards

Perfformiad – a performance

Profi – to prove